

Cyngor Partneriaeth Cymru – 24 Tachwedd 2021

Sylwadau agoriadol y Cadeirydd

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau a'r mynychwyr i'r cyfarfod, a nododd yr ymddiheuriadau.
2. Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu ac roedd yr unig sylw wedi dod gan Alun Michael, sef atgyfnerthu'r pwynt bod y pedwar Prif Gwnstabl a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau wedi mabwysiadu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb hiliol, yn hytrach na datblygu strategaeth ar wahân. Cadarnhaodd Mr Michael fod yr holl gyrff cyfiawnder troseddol sy'n gweithio yng Nghymru wedi mabwysiadu'r un dull, a bod hyn yn symbol o gryfhau'r berthynas drwy gydol y pandemig Covid-19.
3. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu oedd yn deillio o'r cyfarfod blaenorol, gan nodi bod y cyfan wedi'u gweithredu neu ar y gweill.
4. Diolchodd y Gweinidog i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Arweinwyr am ei gwahodd i siarad yng nghyfarfod Cyngor CLILC ddydd Gwener 26 Tachwedd. Cadarnhaodd y byddai'n sôn mwy am y gyllideb bryd hynny, ac na fyddai felly ond yn crybwyll ychydig o bwyntiau yn awr.
5. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Adolygiad Gwariant 2021 a Chyllideb 2022-23 Cymru yn cynnwys cytundeb i roi blaenoriaeth i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys blaenoriaethu cyllid ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol.
6. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r aelodau hefyd am yr adolygiad 'sylfaen sero' o gyllidebau cyfalaf sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, er mwyn alinio cyllidebau cyfalaf â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIS) newydd.
7. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr, ac y byddai'n trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod Cyngor CLILC.

Eitem 1 ar yr agenda: Y Newid yn yr Hinsawdd (eitem sefydlog)

Rhan 1: Lee Waters AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Rhan 2: Diweddariad Panel y Strategaeth Ddatgarboneiddio

8. Dywedodd y Gweinidog mai dyma drydydd diwrnod Wythnos Hinsawdd Cymru, penllanw'r digwyddiadau yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu cynnal fel rhan o raglen COP Cymru. Soniodd y Gweinidog am bwysigrwydd y sesiynau heddiw ar weithio mewn partneriaeth, oedd yn hanfodol yn y newid i fod yn Gymru sero net.

Rhan 1 o eitem 1: Diweddariad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

9. Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog) ei argraffiadau personol ar ôl mynychu cyfarfodydd COP26. Gan gyfeirio at gyflwyniad y Gweinidog ynghylch cyllideb Llywodraeth Cymru, cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai dewisiadau ariannol anodd i'w gwneud, gan gynnwys mynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
10. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at y negeseuon clir a roddwyd gan y gwyddonwyr yn y gynhadledd, a thrafododd rôl arweinyddol gwleidyddion yng Nghymru o ran sbarduno maint y newid sydd ei angen. Ymhlith y meysydd effaith penodol roedd adeiladu tai di-garbon; newid fflydoedd bysiau i rai trydan; a chwilio am gyfleoedd economaidd wrth adeiladu bysiau trydan a chynhyrchu pren. Roedd y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn cynnwys 2035 fel dyddiad targed ar gyfer sicrhau allyriadau carbon sero net yn hytrach na 2050, a fyddai'n anodd iawn ei gyflawni, ond dywedodd y Dirprwy Weinidog fod gan bob un ohonom rwymedigaeth foesol ac ymarferol i'w gyflawni.
11. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog hefyd y gwahanol ymatebion a achoswyd gan y negeseuon cyffredinol ar newid yn yr hinsawdd – yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â hwy - a'r ymatebion personol mwy negyddol yn aml i benderfyniadau lleol. Pwysleisiwyd bod angen ystyried yr effaith gymdeithasol ac amgylcheddol, nid yr effaith economaidd yn unig, ar gymunedau wrth i benderfyniadau anodd gael eu gwneud.
12. Roedd cytundeb eang bod llywodraeth leol wedi bod ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ers peth amser a bod ganddi record gref o arwain ar fentrau datgarboneiddio (sonnir yn fanylach am hyn o dan Ran 2 o'r eitem hon ar yr agenda).
13. Gwnaed yr achos hefyd fod gan Gyngorau Cymuned a Thref a'r sector gwirfoddol rôl i'w chwarae o ran meithrin ymddiriedaeth ar lefel leol. Mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol arbenigedd mewn rhai meysydd (fel ynni morol yn Sir Benfro) a gallant hefyd helpu i ddatblygu asesiadau effaith amgylcheddol.
14. Cododd y Cynghorydd Ian Roberts bryderon am berfformiad Trafnidiaeth Cymru a chynigiodd y Dirprwy Weinidog gyfarfod ar wahân ar y mater hwn.

CAM GWEITHREDU: Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a'r Cynghorydd Ian Roberts i gyfarfod i drafod materion sy'n ymwneud â pherfformiad Trafnidiaeth Cymru.

15. Cododd Shavannah Taj fater yr undebau llafur yn ymwneud â'r gwaith datgarboneiddio a newid hinsawdd, a chytunodd y Gweinidog bod hyn yn bwysig.

Rhan 2 o eitem 1: Diweddariad gan CLILC / Panel y Strategaeth Ddatgarboneiddio

16. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau ei bod wedi cyfarfod ag aelodau Panel y Strategaeth Ddatgarboneiddio (y panel) yn gynharach yr wythnos honno a bod ymgyrch y grŵp wedi gwneud argraff fawr arni. Cyfeiriodd at amllder a ffocws eu cyfarfodydd, er gwaethaf y pandemig.
17. Rhoddodd y Cynghorydd Andrew Morgan gyflwyniad i'r eitem hon, a phwysleisiodd bwysigrwydd yr ymgysylltu parhaus a oedd yn digwydd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, a'r ymgysylltu â Llywodraeth y DU. Gwahoddodd y Cynghorydd Morgan Tim Peppin, CLILC, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y panel.
18. Tynnodd Tim Peppin sylw at y materion canlynol mewn perthynas â gwaith y panel:
 - Pwysigrwydd y rhaglen gymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.
 - Bod adolygiad o weithgarwch datgarboneiddio ym mhob awdurdod lleol wedi'i gynnal, gan arwain at rannu enghreifftiau cadarnhaol iawn ledled Cymru drwy gyfres o weithdai.
 - Mae cydweithwyr undebau llafur yn aelodau o'r panel i sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith pwysig hwn.
 - Mae pwysigrwydd y newid yn yr hinsawdd yn parhau'n eitem sefydlog yn y Cyngor Partneriaeth i sicrhau'r arweinyddiaeth a'r mandad gwleidyddol.
 - Pwysigrwydd ymrwymiadau'r awdurdodau lleol yn Cymru Sero Net, a gyhoeddwyd fis Hydref 2021. Cafodd ei gyd-ddatblygu gan awdurdodau lleol ac roedd yn nodi'r camau nesaf tuag at sero net erbyn 2030, gan roi fframwaith gweithredu.
 - Roedd llinell sylfaen wedi'i datblygu yn ystod y flwyddyn gyntaf, a dyma'r amser i ddatblygu rhaglenni gwaith, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gyda monitro yn erbyn targedau i sicrhau cynnydd.
19. Tynnodd Chris Bradshaw, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Banel y Strategaeth Ddatgarboneiddio, sylw at faterion ychwanegol mewn perthynas â gwaith y panel:
 - Pwysigrwydd y berthynas waith agos rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol a'u cydweithio ar y panel.
 - Enghreifftiau da a amlygwyd gan y panel, megis atebion rhanbarthol i gynllunio ynni
 - Heriau a nodwyd, megis disodli fflyd cyngorau ac ôl-ffitio cartrefi.
 - Pwysigrwydd adeiladu ar ddulliau sydd eisoes ar waith, megis Safonau Ansawdd Tai Cymru.
 - Ymrwymiad aelodau'r panel i wneud cynnydd parhaus tuag at dargedau, symud yn gyflymach a buddsoddi mewn ynni gwyrdd.
20. Diolchodd y Gweinidog i Tim a Chris am eu mewnwelediad i waith y panel a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau. Mewn perthynas â chwestiynau am gyllid, ailadroddodd y Gweinidog y gwaith sydd ar y gweill o fewn Llywodraeth Cymru ar adolygiad sylfaen sero o gyllidebau cyfalaf, a nododd y bwriad i geisiadau am gyllid gael eu hystyried drwy lens datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd pan fydd cyllidebau'n cael eu blaenoriaethu.

21. Crynhowyd yr eitem fel galwad ar i bawb ddod i'r gad i weithio gyda'i gilydd i wynebu'r heriau a rennir ac i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Eitem 2 ar yr agenda: Adferiad (eitem sefydlog) – Addasu yn sgil Covid

Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd CLILC

22. Rhoddodd y Cynghorydd Morgan gipolwg ar yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i'r pandemig, gan gyfeirio at waith sy'n mynd rhagddo ar yr meysydd hynny. Tynnodd y Cynghorydd Morgan sylw at yr her allweddol o ran gofal cymdeithasol, a phwysleisiodd sut y mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Arweinwyr a swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd o ddydd i ddydd i weithio drwy'r heriau uniongyrchol ac amlwg sy'n wynebu'r sector.
23. Pwysleisiodd y Cynghorydd Morgan fod y cyllid tymor byr ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol wedi'i werthfawrogi, ond bod problem tymor hwy o ran galw cynyddol a'r angen am arian ychwanegol. Dywedodd fod ymgysylltu parhaus â Gweinidogion a gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol yn hanfodol, yn enwedig gan fod awdurdodau lleol o dan bwysau cynyddol a digynsail.
24. Tynnodd y Cynghorydd Morgan sylw at effaith barhaus ymadawiad y DU â'r UE o ran problemau'r gadwyn gyflenwi; costau uwch sylweddol i waith cyfalaf; a chontractau bysiau o'r cartref i'r ysgol.
25. Pwysleisiodd y Cynghorydd Morgan y bydd adfer o'r pandemig yn cymryd blynyddoedd, a bod angen i bob un ohonom ddysgu'r gwersi o'r 20 mis diwethaf, gan gydnabod ac adeiladu ar sut rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Mae'r cyhoedd wedi newid, mae gwasanaethau cyhoeddus wedi newid, ac mae'r ffyrdd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu wedi newid.
26. Diolchodd Maria Battle, GIG Cymru, i gydweithwyr yn yr awdurdodau lleol am y gwaith partneriaeth drwy gydol y pandemig, a oedd wedi bod yn rhagorol. Soniodd Maria am sut mae'r GIG mewn sefyllfa heriol iawn - mae llawer o flinder a salwch ymhlith staff, yn ogystal â llawer o swyddi gwag, a hyn i gyd yn anffodus yn cael effaith negyddol ar restrau aros. Ni ellir cyfyngu'r problemau i arian gan eu bod yn ymwneud yn fwy â phobl, ac maent wedi'u gwaethygu ymhellach gan Brexit gan greu prinder staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Lleisiwyd pryderon sylweddol gan aelodau am yr effaith ar y rhai sydd angen cymorth gofal cymdeithasol, a'r angen am gapasiti yn y gweithlu i'w gyflawni.
27. Roedd yr aelodau'n cytuno ar bwysigrwydd creu llwybrau gyrfa iechyd a gofal cymdeithasol integredig gyda thelerau ac amodau gwell, cyfleoedd prentisiaeth a rhagolygon gyrfa. Ystyriwyd bod gwell integreiddio rhwng y gweithluoedd gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ffordd o osgoi'r gystadleuaeth i staff rhwng y sectorau, a hefyd yn ffordd o ddatblygu recriwtiaid drwy lwybr gyrfa cyfunol gan GIG Cymru a llywodraeth leol.

28. Soniodd y Cynghorydd Theodoulou hefyd am yr heriau ariannol a'r heriau eraill a wynebir gan bob sector ar hyn o bryd a'r rôl yr oedd cynghorau cymuned a thref yn ei chwarae, gan holi a allai pwerau codi trethi cynghorau cymuned a thref ddarparu manteision ehangach. Awgrymodd gyfarfod rhwng Un Llais Cymru a CLILC i drafod cydweithio ymhellach.

CAM GWEITHREDU: Un Llais Cymru a CLILC i drefnu cyfarfod i drafod cyfleoedd cydweithio agosach.

29. Cafwyd trafodaeth ar y gronfa galedi Covid-19 a'r gronfa gofal integredig. Cadarnhaodd y Gweinidog na fydd unrhyw gyllid sy'n gysylltiedig â Covid i Gymru gan Llywodraeth y DU gan fod yr holl gyllid wedi'i gynnwys mewn cyllidebau sylfaenol. Byddai cyhoeddiad y Gweinidog ar y gyllideb ar 20 Rhagfyr yn rhoi mwy o wybodaeth. O ran y gronfa gofal integredig, cynigiodd y Gweinidog ofyn am eglurder gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn cyhoeddi'r gyllideb.

GWEITHREDU: Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ofyn am eglurder gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ei chynlluniau ynghylch y gronfa gofal integredig, cyn cyhoeddi'r gyllideb ar 20 Rhagfyr.

30. Daeth yr eitem i ben gyda'r Cynghorydd Morgan yn sôn am gyfarfod diweddar CLILC gydag Ysgrifennydd Parhaol newydd Llywodraeth Cymru, Andrew Goodall, gan ddweud ei fod wedi rhoi ei ymrwymiad a'i gefnogaeth i barhau â'r berthynas waith agos gadarnhaol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth leol.

Eitem 3 ar yr agenda: Y berthynas rhwng y trydydd sector a llywodraeth leol

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

31. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem hon, gan nodi'r gwelliannau mawr a wnaed yn y berthynas rhwng y trydydd sector a llywodraeth leol, a hefyd rhwng y trydydd sector a phartneriaid eraill, drwy gydol y pandemig. Roedd ymgysylltu agos wedi digwydd yn aml a chyda ffocws, ac roedd wedi arwain at ddarparu cymorth y mae mawr ei angen ar bobl a chymunedau.

32. Ategwyd yr awydd i barhau i adeiladu ar y berthynas honno gan aelodau, yn enwedig wrth barhau i harneisio creadigrwydd y sector gwirfoddol wrth helpu i ddatblygu atebion i heriau. Roedd un enghraifft a drafodwyd yn ymwneud â'r ymyriadau sector gwirfoddol a gâi eu cynnig i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i weithgarwch llinellau cyffuriau, a'r pwysigrwydd o ddarparu llwybrau amgen eraill i'r bobl ifanc hynny.

33. Cadarnhaodd y Cynghorydd Morgan ei brofiad ei hun o'r berthynas well, ond tynnodd sylw hefyd at y ffaith y gall diffyg dealltwriaeth weithiau o sut mae pob sector yn gweithio arwain at rwystredigaeth gan bartneriaid y trydydd sector ynghylch systemau a phrosesau angenrheidiol awdurdodau lleol, a hefyd y gofynion archwilio y maent yn ddarostyngedig iddynt.

34. Croesawodd Peter Davies yr eitem hon a soniodd am sut yr oedd yn adeiladu ar drafodaethau blaenorol yn y Cyngor Partneriaeth ynghylch atgyfnerthu'r berthynas â'r trydydd sector, ac adeiladu ar yr ymddiriedaeth a oedd wedi'i datblygu. Nododd Peter y gwaith yr oedd yn rhaid i'r sector ei wneud fel partner cyfartal, gan gynnwys llywodraethiant, cryfhau sgiliau, ac amrywiaeth yr ymddiriedolwyr. Roedd y berthynas rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a CLILC yn gadarnhaol ac edrychai Peter ymlaen at ddatblygu llywodraethiant sector ymhellach, gan gynnwys meithrin rôl ymddiriedolwyr. Nododd hefyd bwysigrwydd canolbwyntio ar weithredu, yn hytrach nag ar greu strwythurau newydd.
35. Caeodd y Gweinidog yr eitem drwy nodi mai un waddol gadarnhaol o'r pandemig oedd y berthynas waith well rhwng y sectorau. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cael ei tharo gan bwynt y Cynghorydd Morgan am y diffyg dealltwriaeth weithiau a'r gwahanol ffyrdd o weithio rhwng y sectorau. Gobeithiai'r Gweinidog y byddai'r gwaith yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu grantiau tymor hwy, ac i ganiatáu i grantiau gael eu hystyngi, yn helpu yn hyn o beth.

Eitem 4 ar yr agenda: Rhoi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

36. Cyflwynodd y Gweinidog bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch o ran rhoi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith, gan ddiolch i'r holl aelodau a gyfrannodd at ddatblygu'r Ddeddf a'r gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r broses o'i rhoi ar waith.
37. Dywedodd y Gweinidog bod tri Gorchymyn Cychwyn wedi'u wneud ym mhumed tymor y Senedd, a ddaeth â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau a oedd i'w cychwyn drwy Orchymyn, i rym. Nododd y Gweinidog heyd bod dau orchymyn cychwyn pellach i'w gwneud, i ddod â rhai o'r darpariaethau sy'n weddill i rym cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.
38. Mae'r cyntaf o'r Gorchymynion hyn yn ymwneud â chychwyn darpariaethau sy'n ymwneud â chymhwysra ac anghymhwysra unigolion i gael eu hethol ac i fod yn aelodau o awdurdod lleol, a fydd yn cael effaith ar gyfer yr etholiadau o fis Mai 2022 ymlaen.
39. Bydd Gorchymyn arall yn darparu ar gyfer cychwyn darpariaethau ynghylch ymchwiliadau penodol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i fethiannau i gydymffurfio â'r cod ymddygiad.
40. Disgrifiodd y Gweinidog sut y mae nifer o feysydd gwaith ar y gweill i ddatblygu a chwblhau canllawiau i gynorthwyo awdurdodau i roi'r Ddeddf ar waith, a bod ystod eang o is-ddeddfwriaeth wedi'i gwneud, ac yn parhau i gael ei gwneud, yn enwedig mewn perthynas â'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

41. Mae llawer i'w wneud o hyd i roi'r Ddeddf ar waith cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 a diolchodd y Gweinidog i bawb sydd wedi gweithio gyda chydweithwyr, ac sy'n parhau i weithio gyda hwy, i sicrhau bod y newid yn cael ei wneud yn ddidrafferth.
42. Croesawodd yr Aelodau y rheoliadau arfaethedig i gyfyngu ar gyhoeddi rhifau ffôn personol a chyfeiriadau aelodau etholedig, gan nodi enghreifftiau o gynghorwyr yn cael eu hymnid mewn modd ymosodol yn eu cartrefi eu hunain. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod ar gael i etholwyr, ond ei bod yn bwysig hefyd i aelodau gael preifatrwydd a bod yn ddiogel.

Sylwadau i gloi

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

43. Ni chodwyd dim o dan Unrhyw Faterion Eraill.
44. Diolchodd y Gweinidog i'r holl aelodau am eu cyfraniad i'r trafodaethau, a chadarnhaodd y bydd y cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal ar 10 Chwefror a 16 Mehefin 2022 (newidiwyd yr ail gyfarfod wedyn i 7 Gorffennaf 2022).

CAMAU GWEITHREDU

CAM GWEITHREDU: Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a'r Cynghorydd Ian Roberts i gyfarfod i drafod materion sy'n ymwneud â pherfformiad Trafnidiaeth Cymru.

CAM GWEITHREDU: Un Llais Cymru a CLILC i drefnu cyfarfod i drafod cyfleoedd cydweithio agosach.

CAM GWEITHREDU: Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ofyn am eglurder gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ei chynlluniau ynghylch y gronfa gofal integredig, cyn cyhoeddiadau'r gyllideb ar 20 Rhagfyr.